Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Heddlu Police
DYFED-POWYS

**Mr. Mark Collins**
**Prif Gwnstabl / Chief Constable**

Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF.
Dyfed-Powys Police Headquarters, PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF.

• Ffôn/Tel : 01267 226325
• Ffacs/Fax : 01267 222185
• E-bost/E-mail : Jayne.butler@dyfed-powys.pnn.police.uk

Eich cyf/Your ref :

Ein cyf/Our ref :
Gofynnwch am/Please ask for :

Annwyl Mr Llywelyn Comisiynydd Heddlu a Throseddu

<u>Adolygiad Dwys i Ddefnydd o Rym o fewn Heddlu Dyfed Powys – Awdur Claire Bryant SCHTh</u>

Anfonir y llythyr hwn i gydnabod yn ffurfiol y darn o waith a nodwyd eisoes a gomisiynwyd gan eich swyddfa, ac a gyflwynwyd i'r Heddlu mewn Bwrdd Plismona diweddar.

Mae'r adroddiad wedi ei adolygu gan yr Uwcharolygydd Gweithrediadau, y mae'n derbyn yr argymhellion ac yn dilyn hynny y mae wedi nodi'r camau gweithredu canlynol.

Mae'r camau gweithredu wedi eu dosbarthu ar sail yr amser cyflawni a ragwelir.

<u>Argymhellion yr ymdrinnir â hwy ar unwaith:</u>

1. Cyflwyno Cyfeirnodau Unigryw ar gyfer ffurflenni defnydd o rym fel mater brys.
   *Ymateb yr Heddlu – Mae'r gwaith hwn eisoes yn digwydd ac mae'r gwaith wedi ei awdurdodi er mwyn diwygio PRONTO (System yr Heddlu).*

2. Rhaid defnyddio Cyfeirnodau Unigryw er mwyn sicrhau bod darnau ffilm o'r Fideo Camera Corff wedi eu tagio'n briodol ac yn hawdd eu canfod.
   *Ymateb yr Heddlu – Mae'r gwaith hwn eisoes yn digwydd ac mae'r gwaith wedi ei awdurdodi er mwyn diwygio PRONTO.*

3. Mae angen cyfathrebu gofynion cofnodi clir a chyson i swyddogion a staff, gan gynnwys pwysigrwydd darnau ffilm o'r Fideo Camera Corff a chyfiawnhad am y grym a ddefnyddiwyd.
   *Ymateb yr Heddlu – Mae strategaeth gyfathrebu i'r Heddlu'n cael ei datblygu.*



Y Wobr Brydeinig am Wasanaeth o Safon

The National Award For Quality of Service

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn croesawu Gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Dyfed-Powys Police welcomes Correspondance in either Welsh or English.

Buddsoddwyr Mewn Pobl

Investors in People

Wales/Cymru CRIMESTOPPERS 0800 555 111
Call anonymously with information about crime
Ffoniwch yn ddienw os am roi gwybodaeth am drosedd

4. Adolygu ac ymgynghori gyda swyddogion ar y pecyn hyfforddi cyfredol ar y defnydd o rym er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu realiti cyhyd ag sy'n bosibl ac yn cynnwys digon o drafodaeth ar ofynion adrodd.
   *Ymateb yr Heddlu – Mae adolygiad o hyfforddiant JRFT ac OST wedi cychwyn a bydd hyn yn cynnwys y pwyntiau a godwyd.*

<u>Argymhellion yr ymdrinnir â hwy mor fuan ag sy'n ymarferol:</u>

5. Sefydlu trefniadau archwilio a goruchwylio er mwyn asesu dealltwriaeth, ac yn sgil hynny, cydymffurfiaeth gyda gofynion adrodd ynghylch defnydd o rym.

   *Ymateb yr Heddlu – Unwaith i gamau gweithredu 1 a 2 gael eu cyflawni, bydd proses debyg i'r un honno a ddefnyddir ar gyfer stopio a chwilio'n cael ei chyflwyno.*

6. Adolygu'r ffurflenni defnydd o rym cyfredol gyda'r bwriad o gwblhau meysydd yn awtomatig, lleihau maint y data sy'n ofynnol ac ystyried sut y cofnodir sail resymegol swyddog.

   *Ymateb yr Heddlu – Bydd y ffurflenni defnydd o rym yn cael ei hadolygu a'u diwygio i gynnwys lle i gofnodi sail resymegol y swyddog.*

7. Gweithio gyda SCHTh i addysgu'r cyhoedd ynghylch y defnydd angenrheidiol, rhesymol a chymesur o rym gan swyddogion yr heddlu a'u hawliau mewn perthynas â gweithredu'r pŵer hwn.

   *Ymateb yr Heddlu – Bydd hyn yn cael ei gyflawni gan y "grŵp defnydd o rym" a fynychir gan gynrychiolydd o SCHTh.*

8. Sicrhau bod swyddogion fel mater o drefn arferol yn cwblhau proffil unigol y rhai hynny y defnyddiwyd grym yn eu herbyn er mwyn galluogi monitro priodol o ddefnydd anghymesur dichonol ar wahanol grwpiau demograffig.

   *Ymateb yr Heddlu – Bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'r gwaith i ymdrin â cham gweithredu 6.*

9. Ystyried darparu cronfa o gamerâu Fideo Camera Corff ar gyfer y rhai hynny sydd heb rai personol eu defnyddio pan mae galw gweithredol.

   *Ymateb yr Heddlu – Mae ymarfer cwmpasu ar waith i asesu dichonoldeb yr argymhelliad hwn. Bydd gweithredu yn y dyfodol yn seiliedig ar ganlyniad yr adolygiad hwn.*

Mae’r canlynol yn cael eu hystyried gan yr heddlu fel ein bod yn gallu adnabod cyfleoedd priodol i ymdrin â’r argymhellion.

10. Gwella’r ffordd y mae’r Heddlu’n cofnodi anafiadau swyddogion mewn cysylltiad â defnydd o rym. Dylai’r wybodaeth hon gael ei defnyddio i sicrhau fod swyddogion wedi eu cyfarparu a’u hamddiffyn yn briodol rhag dioddef niwed wrth gyflawni eu dyletswyddau.

11. Parhau i weithio gyda gwasanaethau iechyd lleol i ddatblygu cynlluniau wedi eu teilwra ar gyfer rheoli troseddwyr mynych, yn enwedig y rhai hynny â nodweddion gwarchodedig mewn modd priodol (gan gynnwys y dulliau mwyaf diogel, effeithiol a phriodol o rym a argymhellir).

12. Gweithio gyda SCHTh i wella cyfraniad y cyhoedd wrth graffu ar gysylltiad swyddogion yr heddlu gyda’r cyhoedd.

13. Blaenoriaethu penderfyniad ar system reoli cofnodion y dyfodol, gan sicrhau y gwneir pob ymdrech i wella’r gallu i ryngweithredu a gwella’r modd y cwblheir rhai meysydd yn awtomatig, gan felly ostwng nifer y gofynion cofnodi unigol i swyddogion.

14. Adolygu pryderon adrannau arbenigol i sicrhau fod swyddogion wedi eu cyfarparu’n briodol i gyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol.

Cyfrifoldeb yr Uwcharolygydd Gweithrediadau fydd y camau gweithredu a nodir uchod, a bydd yr Uwcharolygydd Gweithrediadau’n atebol i’r Grŵp Defnydd o Rym. Bydd cynnydd yr Heddlu’n cael ei adolygu’n unol â’r amserlen a sefydlwyd yn y bwrdd plismona diwethaf.

Yn gywir,

Mark Collins
Prif Gwnstabl